

POYER, JOHN (bu farw 1649), maer tref Penfro a marsiandwr blaenllaw yn y dref honno

Enw: John Poyer

Dyddiad marw: 1649

Priod: Elizabeth Poyer (née Button)

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: maer tref Penfro a marsiandwr blaenllaw yn y dref honno

Maes gweithgaredd: Diwydiant a Busnes; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil

Awdur: James Frederick Rees

Yr oedd yn ddiwyd mewn materion lleol, â gofal y llu milwrol ('trained band') arno. Ar 17 Chwefror 1642 ysgrifennodd at [Syr Hugh Owen](#), Orierton, Sir Benfro, ac aelod seneddol bwrdeisdref Penfro, yn galw ei sylw at ddiffyg amddiffynfeydd yn y sir yn wyneb y cythrwfl yn Iwerddon a bod ffoedigion o'r wlad honno yn cyrraedd Sir Benfro bob dydd. Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, pan dorrodd y Rhyfel Cartrefol allan, trefnodd i amddiffyn tref Penfro a'i chastell, gan fynnu dal ymlaen yn ei swydd fel maer a dyfod yn llywiawdr y castell. Ymunodd [Rowland Laugharne](#) a [Rice Powell](#) ag ef, a chyda'u cymorth hwy safodd yn gadarn ym mhlaid achos y Senedd. Pan ddaeth pennaeth lluoedd y brenin yn ne-orllewin Cymru, sef [Richard Vaughan, ail iarll Carbery](#) i Sir Benfro ym mis Awst 1643, methodd hwnnw â chael gan gastell Penfro ymostwng iddo. Daeth y castell yn ganolfan y cychwynnau ymosodiadau lluoedd y Senedd ohono ac yn lloches pan ddeuai anawsterau. Mewn un ymosodiad yn unig yr adroddir am Poyer yn bennaeth, sef pan lwyddodd i feddiannu castell Carew (10 Mawrth 1644). Daeth ei weithrediadau ag ef i anghydweliadau difrifol aelodau pwyllgor y sir ('the County Committee'); cyhuddai ef rai o'r aelodau o fod yn glaeiar iawn o ran eu hymdrech dros achos y Senedd. Yr oedd yn Llundain ym mis Rhagfyr 1645 yn ei amddiffyn ei hun yn erbyn achwyniadau - nad oedd wedi darparu cyfrif cywir o'r symiau o arian a dderbyniasai ac ensyniadau ei wrthwynebwyr. Ymddengys iddo fod yn Llundain am rai misoedd. Pan ddaeth y brwydro cyffredinol i ben yn 1647 penderfynodd y Senedd leihau maint ei lluoedd arfog trwy ddad-fyddino uwchrifiaid. Cynhwysid yn y gorchymyn hwn y gw r a fuasai'n ymladd yn ne-orllewin Cymru. Fel rhan o'i bolisi anfonodd y cadfridog Fairfax y cynrol Fleming i gymryd lle Poyer fel llywiawdr castell Penfro. Gwrthododd Poyer drosglwyddo'r swydd i Fleming. Ymddengys ei fod yn edrych arni fel peth cryf o'i blaid yn wyneb ei gwerylon gydag aelodau'r pwyllgor sir a'r ceisiadau yr oedd yn eu gwneuthur am gael talu'n ôl iddo yr hyn a dalasai yntau a'r ôl-daliad a oedd yn ddyledus iddo. Dangosodd Fleming ei fod yn fodlon ceisio dyfod i ddealltwriaeth â Poyer eithr profodd yntau yn ystyfnig. Nid oes ddadl nad oedd yn cael ei galonogi yn ei wrthwynebiad gan gynrychiolwyr a oedd yn gweithio dros y Brenhinwyr. Yr oedd mewn cyswllt â'r tywysog Siarl, a derbyniodd gomisiwn oddi wrtho o S. Germain wedi ei ddyddio 3 Ebrill 1648. Arweiniodd Poyer i wrthwynebiad gweddol eang i'r dadfyddino; yn absenoldeb [Rowland Laugharne](#) gwnaeth [Rice Powell](#) ei hunan yn arweinydd i'r gwrthwynebwyr. Wedi i'r Brenhinwyr a'r rheini a arferai ymladd o blaid y Senedd gael eu gorchfygu gyda'i gilydd ym mrwydr S. Ffagan (8 Mai 1648) llwyddodd rhai o'r rheini a oedd yn weddill i ddianc i Benfro. Yno yr oedd Oliver Cromwell ei hunan yn ben ar y rhai a oedd yn gwarchae. Nid ymostyngodd y dref hyd 11 Gorffennaf; erbyn hynny yr oedd nifer y gwarchodlu wedi lleihau yn fawr ac nid oedd obaith am gymorth buan o gyfeiriad y Brenhinwyr. Cafodd Poyer ei gondemnio i farwolaeth ynghyd â [Rowland Laugharne](#) a [Rice Powell](#). Eithr bwriwyd coelbren er mwyn penderfynu pa un o'r tri a gâi ei ddienyddio ac i ran Poyer y disgynnodd dioddef; saethwyd ef yn Covent Garden, Llundain, ar fore 25 Ebrill 1649. Anfonodd Elizabeth, ei weddw, betisiwn at Siarl II am gymorth ariannol oherwydd i'w g n golli £8,000 yn achos y brenin. Rhoddwyd iddi £3,000, yn ôl £300 y flwyddyn.

Awdur

Syr James Frederick Rees, (1883 - 1967)

Ffynonellau

John Roland Phillips, *Memoirs of the Civil War in Wales and the Marches, 1642-1649* (London 1874), 1874

A. L. Leach, *History of the Civil War (1642-49) in Pembrokeshire and on its borders* (Llundain 1937), 1937

J. F. Rees, *Studies in Welsh History collected papers, lectures and reviews* (Caerdydd 1947), 1947

Darllen Pellach

Lloyd Bowen, *John Poyer: the Civil Wars in Pembrokeshire and the British Revolutions* (University of Wales Press 2020)

Erthygl Wicipedia: [John Poyer](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [65431095](#)

Wikidata: [Q13129349](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

